

## **PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 7 Mawrth 2001  
**Amser:** 2.00 hyd 5.00 pm  
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### **ADOLYGIAD O DRAFNIDIAETH GYHOEDDUS: AWGRYMIADAU AR**

#### **GYFER GWAITH Y DYFODOL**

##### **Diben**

1. Cynorthwyo Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i nodi'r hyn a ddisgwylir o drafnidiaeth gyhoeddus a ffyrdd o weithredu hynny dros gyfnod o 5 mlynedd. Gofynnwyd i swyddogion lunio papur yn nodi camau gweithredu posibl i helpu i symud hyn yn ei flaen. Nid yw'n ddatganiad o farn Llywodraeth y Cynulliad.
2. Mae angen cyfuno sawl elfen o waith cyfredol. Disgwylir i'r gwaith ymgynghori ar y Fframwaith Trafnidiaeth ddechrau ar 20 Mawrth 2001 a disgwylir ymatebion erbyn 18 Mai 2001. Dechreuwyd ar adolygiad o drafnidiaeth gymunedol a threfnwyd iddo orffen erbyn 31 Gorffennaf 2001. Y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth sy'n rheoli'r ddau. Mae DETR yn paratoi astudiaethau o drafnidiaeth awyr a dylai'r canlyniadau fod ar gael erbyn yr haf. Bydd pob un o'r rhain yn helpu'r Pwyllgor i benderfynu ar ei gasgliadau a'i argymhellion. Mae'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth hefyd yn cyfrannu at ystyriaeth yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol o gynigion am ryddfrait Wales and Borders Rail.

##### **Y ffordd ymlaen a awgrymir**

3. Awgrymwn fod y Pwyllgor yn cyfyngu'r materion i'w trafod fel a ganlyn:

- Nodi'r materion ansawdd allweddol sy'n sail i drafnidiaeth gyhoeddus gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar fysiau, trafndiaeth gymunedol a rheilffyrdd a rhoi enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio.
- Cyfrannu at lunio canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar baratoi strategaeth fysiau sy'n cynnwys trafndiaeth gymunedol, ac ar y

partneriaethau ansawdd sy'n gysylltiedig â'r contractau ansawdd.

- Adolygu'r ffordd y rhoddir gostyngiad i gwmnïau bysiau ar y doll tanwydd bysiau.

- Ystyried materion trefniadol cyflwyno gwasanaethau o ansawdd gwell.

### **Buddsoddi a Datblygiadau yn y Gwasanaeth**

4. Nid ydym yn meddwl y dylai'r Pwyllgor nodi amcanion ar gyfer mathau arbennig o fuddsoddiadau yn yr adolygiad hwn. Gall adolygiad y Pwyllgor wneud gwahaniaeth trwy sicrhau bodolaeth partneriaeth gyhoeddus/breifafat i wella ansawdd a sicrhau bod trefniadau'r awdurdod lleol yn gymwys i'r diben. Os gellir cyflawni hyn, bydd cynlluniau trafndiaeth lleol mwy cydlynol yn ei ddilyn a bydd achos cryfach dros fuddsoddi. Dylid targedu a gwerthuso'r buddsoddiad uwch, a bydd y gwaith sy'n deillio o'r Fframwaith Trafndiaeth ar sefydlu meini prawf perthnasol yn cynorthwyo'r broses honno. Gyda'i gilydd dylai hyn ein helpu i gymryd golwg strategol wrth wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi.

### **Y Ffordd Ymlaen**

5. Rhaid ymgymryd â darnau allweddol o waith:

- Dylid dadansoddi arferion da mewn perthynas ag ansawdd a'i argymhell i awdurdodau lleol, gweithredwyr bysiau a rheilffyrdd.

- Mae gofyn dadansoddi'r deunydd cyfredol ar **partneriaethau ansawdd bysiau** a sut y gellir datblygu'r rhain yn statudol. Bydd y dystiolaeth a dderbynnir gan y Pwyllgor o gymorth wrth baratoi canllawiau manylach. Bydd angen cwblhau hyn erbyn mis Medi 2001 er mwyn ymgynghori arno gydag Awdurdodau Lleol, cwmnïau bysiau ac eraill a gyfrannodd at adolygiad y Pwyllgor. Dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi'r canllawiau terfynol yn gynnar yn 2002. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gwblhau eu strategaeth fysiau erbyn mis Ebrill 2003.

- Bydd angen dadansoddi'r deunydd ar **ostyngiad i doll tanwydd bysiau** ynghyd â gwaith y Comisiwn ar Drafnidiaeth Integredig sydd bellach ar waith. Gallai hyn gymryd mwy o amser.

- Dadansoddiad o'r strwythurau trefniadol sy'n angenrheidiol i gyflwyno gwell gwasanaethau. Byddai hyn yn cynnwys:

- trefniadau statudol presennol yr awdurdod lleol.
- y grwpiau rhanbarthol gwirfoddol, SWIFT, SWITCH, TIGER, TAITH a Phartneriaeth y Canolbarth.
- trefniadau mewn rhannau eraill o'r DU gan gynnwys Cynulliad Llundain Fawr ac Awdurdodau Trafnidiaeth Teithwyr (PTA) ac yn Ewrop.
- math newydd o gorff sy'n dod â phwerau fel rhai'r PTA a rheolaeth traffig ynghyd.
- yr angen am gorff newydd i gynnwys Cymru gyfan neu ar lefel ranbarthol.

8. Dylai'r dewisiadau fod yn barod i ymgynghori arnynt ym mis Medi 2001, er ei bod yn bosibl y bydd angen cyfnod hwy o amser ar gyfer gostyngiad yn nhol tanwydd bysiau. Bydd ar y Pwyllgor angen penderfynu sut i wneud y gwaith paratoi.

Cyswllt **Denzil Jones**

**YR IS-ADRAN POLISI TRAFNIDIAETH**